# CRONFA BENSIWN
# **POWYS**
# PENSION FUND

## POLISI LLYWODRAETHU A DATGANIAD CYDYMFFURFIO

Mawrth 2024

# POLISI LLYWODRAETHU A DATGANIAD CYDYMFFURFIO

Yn unol â gofynion rheoliad 55 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd), mae'r ddogfen hon yn nodi manylion dirprwyo, rheoli, gweithredu a llywodraethu Cronfa Bensiwn Powys. Yn ogystal, mae trefniadau llywodraethu'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cymharu â'r canllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan [y Pwyllgor] Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 21 Gorffennaf 2008 (gweler Atodiad D). Mae'r datganiad hwn wedi'i adolygu yn unol ag arferion gorau.

## 1. Trefniadau Cyfansoddiadol.

1.1 Mae Cronfa Bensiwn Powys yn gronfa bensiwn llywodraeth leol. Y prif fframweithiau cyfreithiol yw Deddf Blwydd-daliadau 1972 a Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, gyda materion gweithredol yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny.

1.2 Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys. Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir (gan gynnwys y Cyfansoddiad, Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Contractau) yn berthnasol i reoli'r Gronfa Bensiwn. Yn ogystal, mae'r awdurdod gweinyddol yn cael ei gynorthwyo gan Fwrdd Pensiynau Powys a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

## 2. Cynllun Dirprwyo.

2.1 Mae Cyngor Sir Powys yn dirprwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â chynnal y Gronfa Bensiwn i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a'r Swyddog Adran 151, yn unol ag Atodiadau A a B i'r Datganiad hwn.

2.2 Mae penderfyniadau o ddydd i ddydd mewn perthynas â rheoli'r Gronfa Bensiwn a phenderfyniadau buddsoddi y mae angen eu gwneud cyn y Pwyllgor nesaf, yn cael eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau.

2.3.1 Bydd Cyngor Sir Powys yn penodi aelodau pleidleisio i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 6 aelod â phleidlais (1 ohonynt fydd yr Aelod Portffolio dros faterion Cyllid); 1 aelod heb bleidlais yn cynrychioli cyflogwyr y Gronfa Bensiwn (a etholir gan gyflogwyr hynny'r Gronfa Bensiwn); ac 1 aelod heb bleidlais sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun pensiwn (a enwebir gan yr undebau llafur cydnabyddedig). Mae gan gyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau gworwm pan fydd 25% o'r aelodaeth â phleidlais, neu ddim llai na 3 i gyd, yn bresennol.

2.3.2 Bydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau yn cyfarfod bob chwarter gyda chyfarfodydd arbennig ychwanegol a gweithdai hyfforddi yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

2.3.3 Bydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau yn cael eu cynghori gan Swyddog Adran 151 y Cyngor, Cynghorydd Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn (Aon ar hyn o bryd) ac Actiwari'r Gronfa Bensiwn (Aon ar hyn o bryd).

2.3.4 Bydd yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi ymgymryd â hyfforddiant a dangos cymhwysedd yn unol â Pholisi'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (Atodiad C).

2.3.5 Bydd cofnodion y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Sir.

## 3. Bwrdd Pensiynau Powys.

3.1 Sefydlodd Cyngor Sir Powys fwrdd pensiynau lleol ar 21 Ionawr 2015 yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

3.2 Bydd Cyngor Sir Powys yn penodi cadeirydd annibynnol y Bwrdd Pensiynau. Bydd y Bwrdd yn cynnwys 6 aelod â phleidlais yn ogystal â'r cadeirydd annibynnol; 3 aelod yn cynrychioli cyflogwyr y Gronfa Bensiwn (a enwebwyd gan y cyflogwyr hynny'r Gronfa Bensiwn); a 3 aelod yn cynrychioli aelodau'r cynllun pensiwn (a enwebir gan yr undebau llafur cydnabyddedig, neu aelod o'r cynllun pensiwn).

3.3 Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod yn chwarterol (naill ai ymlaen llaw neu ar ôl pob cyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau), gyda chyfarfodydd arbennig ychwanegol a gweithdai hyfforddi yn ôl yr angen. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn yn agored i'r cyhoedd.

3.4 Bydd y Bwrdd Pensiynau'n cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151 ac unrhyw Swyddogion eraill o'r Cyngor a Chynghorwyr ac Ymgynghorwyr proffesiynol, yn ôl y gofyn.

3.5 Bydd gofyn i aelodau'r Bwrdd Pensiynau ddilyn hyfforddiant a dangos cymhwysedd yn unol â Pholisi'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau (Atodiad C).

3.6 Bydd cofnodion y Bwrdd Pensiynau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a byddant ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn. Bydd Cadeirydd y Bwrdd hefyd yn cynhyrchu crynodeb gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

## 4. Ymgynghori

4.1 Bydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflogwyr y Gronfa Bensiwn ac undebau llafur) drwy'r canlynol:

- Cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer y prif randdeiliaid.
- Cyfarfod bob tair blynedd rhwng cyflogwyr y Gronfa Bensiwn a'r actiwari i drafod canlyniadau'r prisiad actiwaraidd.

## 5. Adolygiad o'r Datganiad hwn

5.1 Yn unol â gofynion rheoliad 55(2) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd), bydd y Datganiad hwn yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi gan Gronfa Bensiwn Powys yn dilyn unrhyw newidiadau sylweddol neu yn unol ag arfer gorau.

## 6. Cysylltiadau

6.1 Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu sylwadau am y Datganiad hwn at:

Chris Hurst
Rheolwr y Gronfa Bensiwn
Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
Powys
LD1 5LG

6.2 Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Powys a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gael ar wefan y Gronfa: www.powyspensionfund.org

**Atodiad A**

**Swyddogaethau a Ddirprwywyd i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau**

**Swyddogaethau Gweinyddu Pensiynau**

Penodi Actiwari'r Gronfa Bensiwn;

Derbyn y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd a phrisiadau eraill o'r fath a all godi o bryd i'w gilydd a phennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr sy'n deillio ohono.

Monitro ac adolygu'r trefniadau cyffredinol ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Ymateb i ymgynghoriadau mewn perthynas â'r CPLlL.

Cyflawni swyddogaethau canlynol y CPLlL:

- Gweithredu fel Ymddiriedolwyr Cynllun mewn perthynas â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) Cyngor Sir Powys
- Arfer y pwerau dewisol sydd ar gael i awdurdod gweinyddu o dan ddarpariaethau rheoliadau'r CPLlL
- Datblygu, cyhoeddi ac adolygu polisïau fel sy'n ofynnol gan reoliadau'r CPLlL.

**Swyddogaethau Buddsoddi**

Pennu polisi buddsoddi hirdymor.

Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Cyngor.

Adolygu strwythur buddsoddi'r Gronfa Bensiwn o leiaf bob tair blynedd, gan roi sylw i rwymedigaethau'r Gronfa a chyngor Cynghorydd Buddsoddi'r Gronfa a'r Swyddog Adran 151.

Penodi a diswyddo rheolwyr buddsoddi, ymgynghorwyr a chynghorwyr, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC/WPP), fel y bo'n briodol.

Adolygu perfformiad buddsoddi o leiaf unwaith bob 3 mis.

Derbyn a chymeradwyo lle bo angen, ddogfennau a diweddariadau gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Bydd gofyn i’r Cadeirydd eistedd ar Gydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Penodi ceidwad y Gronfa ar gyfer ei hasedau ac adolygu trefniadau gwarchodaeth o bryd i'w gilydd.

Penodi Gwasanaeth Mesur Perfformiad ar gyfer y Gronfa.

**Cyffredinol**

Cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r cynllun busnes.

Derbyn cyfrifon blynyddol y Gronfa Bensiwn ac unrhyw sylwadau o archwiliad allanol sy'n gysylltiedig â hynny.

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn.

Derbyn adroddiadau archwilio mewnol ar faterion y Gronfa Bensiwn.

**Atodiad B**

**Swyddogaethau a Ddirprwywyd i'r Swyddog Adran 151**

**Swyddogaethau Gweinyddu Pensiynau**

Rheoli gweinyddiaeth CPLlL.

Cyflawni swyddogaethau canlynol y CPLlL:

- Dyfarnu Grantiau Marwolaeth yn unol â pholisi cytunedig y Cyngor.
- Sicrhau cydymffurfiad â Deddf Pensiynau 1995
- Sicrhau cydymffurfiad â Deddfau Cyllid perthnasol, yn arbennig cwrdd â Gofynion Adrodd CThEM
- Sicrhau cydymffurfiad â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.
- Sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion statudol a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Swyddogaethau Buddsoddi**

Ymgymryd â monitro rheolaidd a chysoni buddsoddiadau ac adrodd ar faterion o bwys i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau.

Cynnal ymarferion tendro ar gyfer gwasanaethau'r Gronfa a Rheolwyr Buddsoddi yn unol â threfniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor a chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a chyflwyno rhestrau byrion i'r Pwyllgor eu defnyddio i wneud penodiadau.

Cymryd rhan a mynychu cyfarfodydd Gweithgorau Swyddogion a Phwyllgor Llywodraethu ar y Cyd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

**Cyffredinol**

Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa yn unol ag arfer priodol.

Awdurdodi gwariant priodol o'r Gronfa.

Awdurdodi symudiadau arian parod neu asedau rhwng y Cyngor, y Gronfa, rheolwyr gwarchodol a rheolwyr buddsoddi.

Pan fo angen, arfer hawliau pleidleisio’r Gronfa trwy gyfarwyddyd i’r rheolwyr buddsoddi a’r gwarchodwr, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau.  Mae’r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau wedi dirprwyo’r defnydd o’r hawliau pleidleisio sydd ynghlwm wrth ei gyfranddaliadau i’r rheolwyr buddsoddi ond mae’n cadw’r hawl i arfer yr hawliau hynny ar ei gyfrif ei hun mewn amgylchiadau eithriadol.

Gall y Swyddog Adran 151 awdurdodi Swyddogion yn eu gwasanaeth i arfer swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt ar eu rhan.  Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir o dan yr awdurdod hwn yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 a rhaid eu cymryd yn ei enw ef/hi a bydd yn parhau i fod yn atebol ac yn gyfrifol am benderfyniadau o'r fath.

# Atodiad C

# Polisi’r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau

## 1 Rhagymadrodd

1.1 Mae’r ddogfen hon yn nodi polisi Cronfa Bensiwn Powys mewn perthynas â’r gofynion gwybodaeth a sgiliau y mae’n eu gosod ar y rhai sy’n gwasanaethu fel aelodau o’r canlynol:

- Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau Cyngor Sir Powys (sef y prif gorff gwneud penderfyniadau a rheoli ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys), neu
- Fwrdd Pensiwn Powys

1.2 Mae ymrwymiad i'r polisi hwn yn ymrwymiad a osodir ar y rhai dan sylw fel rhan o gyflawni eu dyletswyddau; fel mater o arfer gorau a llywodraethu da.

## 2 Y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau

2.1 Mae Cronfa Bensiwn Powys wedi mabwysiadu Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA, fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar bensiynau, mewn partneriaeth â'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae’r Fframwaith yn darparu map ffordd i’r wybodaeth a’r sgiliau y dylai’r rheini sy’n ymwneud â rheoli a llywodraethu Cronfa Bensiwn Powys, nad ydynt eu hunain yn weithwyr pensiwn proffesiynol, eu dal. Yn ogystal, mae'r Rheoleiddiwr yn darparu mynediad i ddeunyddiau astudio a hyfforddi perthnasol.

2.2 Bydd yr holl Aelodau perthnasol yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Fframwaith, cyn gynted â phosibl ar ôl eu penodi. Gwneir hyn trwy lenwi Ffurflen Hunanasesu Anghenion Hyfforddi’r Aelodau.

2.3 Ar ôl cwblhau'r ffurflen hunanasesu, bydd y Swyddog Adran 151 yn asesu'r Aelod yn erbyn meini prawf y Fframwaith ac yn penderfynu pa hyfforddiant sydd angen ei gwblhau ac o fewn pa gyfnod o amser.

2.4 Mae CIPFA wedi nodi 6 maes gwybodaeth a sgiliau fel y gofynion technegol craidd:

- cyd-destun deddfwriaethol a llywodraethu pensiynau
- safonau cyfrifo ac archwilio pensiynau
- caffael gwasanaethau ariannol a rheoli perthnasoedd
- perfformiad buddsoddi a rheoli risg
- gwybodaeth am farchnadoedd ariannol a chynhyrchion

- dulliau, datganiadau ac arferion actiwaraidd.

## 3 Diwallu Anghenion Gwybodaeth a Sgiliau

3.1 Gellir diwallu anghenion gwybodaeth a sgiliau a nodwyd drwy amrywiaeth o ddulliau a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- cwblhau modiwlau penodol yn y pecyn cymorth e-Ddysgu Gwasanaeth Cyhoeddus a ddarperir ar-lein am ddim gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi allanol ar gyfer ymddiriedolwyr pensiwn a/neu aelodau bwrdd
- presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi mewnol a hwylusir gan Gronfa Bensiwn Powys neu Gyngor Sir Powys
- mynychu cynadleddau pensiwn, seminarau a gweithdai sy'n ymwneud â buddsoddi mewn cronfeydd, gweinyddu cynlluniau, llywodraethu cronfeydd, materion actiwaraidd neu feysydd perthnasol eraill.

## 4 Datblygiad Parhaus

4.1 Nid yw materion cronfa bensiwn yn aros yn eu hunfan. Felly, bydd yn ofynnol ymgymryd â datblygiad parhaus er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bensiynau cyffredinol a materion penodol CPLlL. Mae'n ofynnol i bob Aelod perthnasol, waeth beth fo'i gefndir proffesiynol, ymgymryd ag o leiaf 4 diwrnod o ddatblygiad parhaus ym mhob blwyddyn gynllun (yn dod i ben ar 31 Mawrth). Yn ogystal, efallai y bydd gofynion i ymdrin â risgiau fel seiberddiogelwch a diogelu data.

4.2 Gellir cyflawni'r gofyniad hwn trwy fynychu amrywiaeth o gyfarfodydd er enghraifft yng Nghynhadledd Ymddiriedolwyr CPLlL neu seminarau LAPFF.

## 5 Atebolrwydd a Thryloywder

5.1 Mae atebolrwydd a thryloywder yn egwyddorion llywodraethu da ac arfer gorau. Felly, bydd anghenion gwybodaeth a sgiliau, hyfforddiant a datblygiad a datblygiad parhaus, yn cael eu monitro a'u cofnodi a'u cyhoeddi'n flynyddol.

5.2 Os bydd Aelod yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y polisi hwn, gallai hynny olygu ei fod yn cael ei wahardd rhag gwasanaethu ar naill ai'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau neu Fwrdd Pensiwn Powys, fel y bo'n berthnasol, ac fel y'i pennir gan y Swyddog Adran 151.

## Atodiad D

## Datganiad Cydymffurfiad Llywodraethu

**Egwyddor A – Strwythur**

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **a) Mae'n amlwg mai'r prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodi sy'n gyfrifol am reoli gweinyddu buddion a rheolaeth strategol asedau'r gronfa.** | | | | | **x** |
| **b) Bod cynrychiolwyr y cyflogwyr CPLIL sy'n cymryd rhan, cyrff a dderbyniwyd ac aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau o'r prif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd a sefydlwyd i danategu gwaith y prif bwyllgor.** | | | | | **x** |
| **c) Lle bo pwyllgor eilaidd neu banel wedi'i sefydlu, bod y strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y ddwy lefel.** | | | | | |
| **d) Pan fo pwyllgor eilaidd neu banel wedi'i sefydlu, bod o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor yn cael ei dyrannu i aelod o'r pwyllgor eilaidd neu banel.** | | | | | |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddau a roddir uchod:-<br>c) Nid oes Pwyllgor eilaidd.<br>d) Nid oes Pwyllgor eilaidd. | | | | | |

## Egwyddor B – Cynrychiolaeth

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **Bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael y cyfle i gael eu cynrychioli o fewn strwythur y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:-**<br>**e) Cyflogwyr y gronfa** | | | | | x |
| **f) Aelodau'r cynllun** | | | | | x |
| **g) Arsylwyr proffesiynol annibynnol (lle bo'n briodol)** | x | | | | |
| **h) Cynghorwyr arbenigol** | x | | | | |
| **i) Lle bo aelodau lleyg yn eistedd ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, eu bod yn cael eu trin yn gyfartal o ran mynediad at bapurau a chyfarfodydd, a hyfforddiant ac yn cael cyfle llawn i gyfrannu at y broses benderfynu, gyda hawliau pleidleisio neu hebddynt.** | | | | | x |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:-<br>g) a h) Nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn ofynion priodol na statudol. Ond mae cynghorwyr arbenigol proffesiynol i'r Gronfa Bensiwn, er nad ydynt yn aelodau, yn mynychu'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau. | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau o'r graddfeydd a roddir uchod:- dim | | | | | |

## Egwyddor C – Dewis a rôl aelodau lleyg

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **j) Bod aelodau'r pwyllgor yn cael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r statws, y rôl a'r swyddogaeth y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni ar naill ai brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd.** | | | | | **x** |
| **k) Bod aelodau pwyllgor yn cael eu gwahodd ar ddechrau unrhyw gyfarfod i ddatgan unrhyw fuddiant ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar yr agenda.** | | | | | **x** |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- dim | | | | | |

## Egwyddor D – Pleidleisio

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **l) Mae'r polisi ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp a gynrychiolir ar brif bwyllgorau'r CPLlL.** | | | | | **x** |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- Nid oes unrhyw hawliau pleidleisio i gynrychiolwyr cyflogwyr cynlluniau eraill ac aelodau'r cynllun ar Bwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau'r Gronfa. Mae Cyngor Sir Powys o'r farn ei bod yn amhriodol i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau nad ydynt yn aelodau etholedig o'r Cyngor Sir gael pwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaeth y mae'r Cyngor Sir, fel yr awdurdod gweinyddu, yn gyfrifol amdani. | | | | | |

__Egwyddor E – Hyfforddiant / Amser Cyfleuster / Treuliau__

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **m) Mewn perthynas â'r ffordd y mae penderfyniadau statudol a chysylltiedig yn cael eu gwneud gan yr awdurdod gweinyddu, mae yna bolisi clir am hyfforddiant, amser yn y cyfleuster ac ad-dalu treuliau ar gyfer aelodau sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau.** | | | | | **x** |
| **n) Lle bo polisi o'r fath yn bodoli, mae yr un mor berthnasol i holl aelodau'r pwyllgorau, pwyllgorau eilaidd, paneli cynghori neu unrhyw ffurf arall ar fforwm eilaidd.** | | | | | **x** |
| **o) Bod yr awdurdod gweinyddol yn ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd ac yn cadw cofnod o'r holl hyfforddiant o'r fath yr ymgymerir ag ef.** | | | | | **x** |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- Dim. | | | | | |

**Egwyddor F – Cyfarfodydd (Amlder / Cworwm)**

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **p) Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf bob chwarter.** | | | | | x |
| **q) Bod pwyllgor eilaidd neu banel awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn cael ei gydamseru â'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn eistedd.** | | | | | |
| **r) Bod yn rhaid i awdurdod gweinyddu nad yw'n cynnwys aelodau lleyg yn ei drefniadau llywodraethu ffurfiol, ddarparu fforwm y tu allan i'r trefniadau hynny y bydd buddiannau rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynrychioli arno** | | | | | |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- q) nid oes unrhyw bwyllgor eilaidd.<br>r) Cynrychiolir buddiannau o'r fath ar y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau. | | | | | |

**Egwyddor G – Mynediad**

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **s) Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y cyngor, bod gan bob aelod o'r prif bwyllgor a phwyllgorau eilaidd neu baneli fynediad cyfartal at bapurau pwyllgor, dogfennau a chyngor sydd i'w hystyried yng nghyfarfodydd y prif bwyllgor.** | | | | | x |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- Dim. | | | | | |

**Egwyddor H – Cwmpas**

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **t) Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion ehangach yn y cynllun o fewn cwmpas eu trefniadau llywodraethu.** | | | | | **x** |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- Dim. | | | | | |

**Egwyddor I – Cyhoeddusrwydd**

| | Lefel Cydymffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim*** | | | | **Llawn** |
| **u) Bod awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu yn y fath fodd fel bod rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei lywodraethu, yn gallu mynegi diddordeb mewn dymuno bod yn rhan o'r trefniadau hynny.** | | | | | **x** |
| * Rheswm dros beidio â chydymffurfio:- dim | | | | | |
| Nodiadau ac esboniadau ar y graddfeydd a roddir uchod:- Dim. | | | | | |